Yn y DU mae penllanw a thrai yn digwydd tua dwywaith y diwrnod – mae amser y penllanw yn symud ymlaen tua 50 munud bob diwrnod. Mae uchder y llanw yn newid ar gylchred byd-eang o 14 diwrnod, wedi'i achosi gan raddau'r aliniad rhwng y lleuad a'r haul. Mae'r cylchredau hyn yn creu gorllanw uwch wedi'u dilyn saith niwrnod yn ddiweddarach gan lanw isel. Mae cylchred hanner blwyddyn ychwanegol yn dod â'r gorllanw mwyaf tuag adeg cyhydrosau Mawrth a Medi. Daw'r gorllanw lleiaf tua'r un pryd â heuldroeon yr haf a'r gaeaf.

Sut gall y llanw gynhyrchu ynni ac ymhle mae'r manau cryfaf?

Gellir cynhyrchu trydan o symudiadau llif y llanw yn ogystal â symudiadau amrediad y llanw, ond mae'r dechnoleg a ddefnyddir i ddal yr ynni yn wahanol iawn ym mhob achos. Ceir crynodeb o'r prif wahaniaethau isod.

Llif y Llanw

Mae dyfeisiau llif y llanw yn dal ynni o gerrynt cyflym yn y llanw, ac mae'r rhain i'w cael fel arfer mewn sianeli cyfyngedig o gwmpas pentir a phenrhyn. Fe'u cynlluniwyd i echdynnu'r swm mwyaf posibl o ynni ar yr un pryd â gadael i ddŵr y môr lifo'n naturiol. Mae modd rhagweld yn gywir y swm o ynni y gellir ei echdynnu ar unrhyw adeg.

Mae'r rhan fwyaf o ffynhonnell llif y llanw'r DU i'w cael yng ngogledd yr Alban, yng nghyffiniau'r Pentland Firth. Gwelwyd potensial sylweddol mewn ardaloedd eraill hefyd, yn bennaf Strangford Lough yng Ngogledd Iwerddon, Ynys Môn yng Ngogledd Cymru, Sir Benfro yn Ne Cymru, Môr Hafren, ac Alderney yn Ynysoedd y Sianel. Amcangyfrifwyd bod tua hanner ffynonellau llif y llanw Ewrop wedi'u crynhoi yn nyfroedd y DU. Mae tua

dwy ran o dair o ffynonellau'r DU i'w cael mewn dyfnderoedd sy'n fwy na 40 metr.


Amrediad y Llanw

Mae technoleg amrediad llanw yn creu ynni ar benllanw drwy ddal dŵr yr aber y tu ôl i rwystr artiffisial, megis morglawdd neu argae. Wrth i'r llanw fynd ar drai, mae giatau'r morglawdd yn agor gan sianelu dŵr drwy dyrbinau yn y morglawdd gan gynhyrchu pŵer.

Arfordir de-orllewin y DU sydd â'r potensial gorau ar gyfer technoleg amrediad llanw gan fod gan yr ardal wahaniaethau mawr yn uchder y dŵr rhwng penllanw a thrai. Er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng penllanw a thrai yn aber yr Hafren yw 8.2m. Dyma'r amrediad llanw ail uchaf yn y byd a dim ond Bae Fundy yn Nova Scotia sydd ag amrediad uwch. Mae aber y Mersi yn fan pwysig arall ar gyfer prosiect amrediad llanw yn y DU.

Mae'r llyfryn hwn yn canolbwyntio ar dechnoleg llif y llanw. I gael rhagor o wybodaeth am dechnoleg amrediad llanw, gweler adroddiad y CDC: Ynni Llanw yn y DU sydd ar gael o www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=613. Mae fersiwn Saesneg *Turning the Tide – Tidal Power in the UK* ar gael i'w lawrlwytho o www.sd-commission.org.uk/pages/tidal.html

Sut bethau yw dyfeisiau llif y llanw?



Mae dyfeisiau a gynlluniwyd i ddal ynni o gerrynt y llanw fel arfer ag un o dri math o ffurfwedd rotor i yrru'r tyrbinau:

- Hydrofoil cilyddol
- Echelin orweddol
- Echelin fertigol.

Mae rhai dyfeisiau wedi'u gosod ar waelod y môr (drwy osodiad golofnog neu fonopolyn), rhoddir pwysau ar eraill iddynt eistedd ar wely'r môr. Ceir hefyd ddyfeisiau sy'n arnofio gan ddefnyddio angorau ac angorfeydd i gylmu'r strwythur i wely'r môr.

Fel arfer mae dyfeisiau llif y llanw yn ddyfeisiau modiwlaid, arunig a osodir fel rheol gyda'i gilydd er mwyn cael po fwyaf bosibl o drydan ohonynt. Mae rhai pobl yn galw'r grwpiau aml-uned hyn yn 'ffermydd gwynt tanddwr'. Dim ond ar y môr y gellir gosod dyfeisiau llif y llanw, ac mae hyn yn golygu amgylchedd heriol iawn ar gyfer profi, datblygu ac, yn y pen draw, eu gweithredu'n fasnachol. Mae'n rhaid i'r cyfan weithio ar y dŵr neu ynddo.

Pa mor bell y mae technoleg llif y llanw wedi datblygu?

Mae'n dal yn ddyddiau cynnar i'r diwydiant; mae gofyn i'r dechnoleg ddatblygu ymhellach cyn y gellir asesu ei botensial hirdymor yn deg ac yn gywir. Mae modd cymharu safle presennol y dechnoleg â'r diwydiant grym gwynt newydd yn y 1980au. Rhoddwyd prawf ar ddyfais llif y llanw cychwynnol yng nghulfor Messina, yr Eidal yn 1999. Bron i ddegawd yn ddiweddarach, cynlluniwyd a phrofi ystod eang o ddyfeisiau – mwy nag 20 ohonynt – a'u llwyddiant yn amrywio.

Hyd yn hyn ni cheir cytundeb ynghylch pa ddyfais benodol fydd yn dal eu tir ar ôl amser. Mae'r datblygu yn adlewyrchu profiad cynnar y diwydiant gwynt pan brofwyd nifer o siapiau a meintiau tyrbinau cyn i'r tŵr dur gyda'r llafnau yn ymestyn allan ddod yn gynllun safonol ac sydd bellach yn adnabyddus.

Er hynny, gosodwyd system cyntaf y byd ar raddfa fasnachol i gael ynni o'r llanw (SeaGen) yng ngwanwyn 2008 yn Strangford Lough, Gogledd Iwerddon. Gosodwyd a phrofwyd fersiwn cynharach o'r system hon (SeaFlow) ym Môr Hafren, ger Lynmouth, gogledd Dyfnaint o 2003-2006.

Strangford Lough, Gogledd Iwerddon

Mae llif cyflym y cerrynt yn Strangford Lough yng Ngogledd Iwerddon yn ei wneud yn lleoliad delfrydol ar gyfer treialu prosiect cyntaf yn y byd ar raddfa fasnachol i gael ynni o'r llanw.

Gosodwyd tyrbîn SeaGen â gallu cynhyrchu 1.2 MW yn y Lough a disgwylir iddo gynhyrchu trydan glân i tua 1000 o gartrefi. Bydd gwyddonwyr o Royal Haskoning, Prifysgol y Frenhines, Belfast ac Uned Ymchwilio Mamaliaid y Môr St Andrews yn monitro'r ddyfais yn gweithio ac astudio sut y mae'n rhyngweithio â bywyd y môr.

Rhoddyd caniatâd i Marine Current Turbines (MCT) o Fryste osod a gweithredu'r tyrbîn am bum mlynedd. Nid yw'r ddyfais yn creu unrhyw sŵn, nid yw'n gollwng unrhyw garbon a bydd y rhan fwyaf o'r strwythur o dan wyneb y dŵr. Adeiladwyd SeaGen yn iard longau Harland & Wolff yn Belfast. Ariannwyd y prosiect yn rhannol gan Lywodraeth y DU.

Dywedodd Martin Wright, cyfarwyddwr rheoli Marine Current Turbines:

"Mae diddordeb byd-eang yn SeaGen gan mai dyma'r ddyfais llif y llanw masnachol cyntaf a'r mwyaf ei faint i gael ei gosod unrhyw le yn y byd, ac felly gallwn ddisgwyl i'r gosodiad fod yn sylfaen i ddatblygiad pellach diwydiant ynni'r môr yn y DU ac ar ynys Iwerddon."

Mae MCT hefyd wedi sefydlu cysylltiad ag ynni adnewyddadwy npower i arddangos cynllun fferm llif y llanw yn nyfnderoedd y môr yn Skerries oddi ar arfordir gogledd-orllewin Ynys Môn yng Ngogledd Cymru.

Maent am osod a gweithredu casgliad o saith o dyrbinau 1.5 MW, pob un yn codi naw metr uwchben lefel y môr, erbyn 2011-2012, cyn belled â'u bod yn cael caniatâd cynllunio ac yn gallu cael gafael ar y cyllid angenrheidiol.



Marine Current Turbines

Dolenni Marine Current Turbines www.marineturbines.com
Ynni Adnewyddadwy Npower www.npower-renewables.com

Adran 2

Ynni adnewyddadwy, newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni

Nid yw tanwydd ffosil, megis olew a glo, yn ddiderfyn ac mae eu defnydd wrth gynhyrchu trydan yn cyfrannu tuag at y newid yn yr hinsawdd. Mae consensws gwyddonol amlwg bellach o'r angen i ddod o hyd i ffynonellau diogel a dibynadwy, isel eu carbon, i gynhyrchu trydan yn lle tanwydd ffosil er mwyn mynd i'r afael â'r ddwy sialens – newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni.

Ni fydd pŵer llif y llanw, megis ffurfiau adnewyddadwy eraill, yn dod i ben, nac yn llygru'r amgylchedd (gan nad yw'n cynhyrchu dim gwastraff na CO₂). Mae pŵer adnewyddadwy hefyd yn cynyddu diogelwch ynni gan ei fod yn helpu i leihau ein dibynadwyedd ar fewnforio tanwydd o rannau eraill o'r byd.

Pa dargedau a osodwyd ar gyfer newid i ynni adnewyddadwy? Sut y mae targedau'r DU yn cymharu â rhai gwledydd eraill sy'n aelodau o'r UE?

Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) sy'n arwain y gwaith ar strategaeth ynni adnewyddadwy y DU. Bydd papur ymgynghori sy'n amlinellu'r strategaeth hon, i'w gyhoeddi yn haf 2008, yn nodi'r amserlenni ac yn crisialu targedau i ysgogi mwy o gynnydd. Mae polisi'r llywodraeth yn ffactor ysgogi hollbwysig i gyfeirio a chyflymu datblygu technoleg newydd.

Yn ôl adroddiad diweddar i'r BERR, amcangyfrifir y byddai'r DU, o dan ragamcaniadau "busnes yn ôl yr arfer", ond yn cael 5% o'i ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020¹. Mae hyn yn cymharu â gofyniad yr UE i'r DU gael 15% o'r ynni a ddefnyddia o ynni adnewyddadwy erbyn 2020¹ – sy'n llai na'r cyfartaledd o 20% sy'n ofynnol yn yr holl wledydd eraill sy'n aelodau. Yn y cyd-destun hwn, mae ynni yn cynnwys gwres a thrafnidiaeth yn ogystal â thrydan.

Mae gan ynni llif y llanw gefnogaeth drawsbleidiol oherwydd y manteision amgylcheddol ac economaidd a ragwelir.

Pa dargedau sydd gan weinyddiaethau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ar gyfer defnyddio ynni adnewyddadwy?

Mae gan yr **Alban** gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer cynhyrchu a defnyddio trydan adnewyddadwy. Ei nod yw cynhyrchu 31% o'i drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2011 a 50% erbyn 2020. Er nad yw wedi nodi targedau penodol ar gyfer technolegau unigol, y prif ffocws yw datblygu technolegau ar y môr, megis technoleg tonnau a'r llanw, yn ogystal â'r angen i ddatblygu cymysgedd amrywiol o ffynonellau cynhyrchu trydan er mwyn sicrhau diogelwch ynni. Mae'r Alban hefyd am allforio ynni adnewyddadwy nad yw'n niwclear.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi ariannu £13m i gefnogi datblygiad pellach ar EMEC, yn ogystal â phedwar prosiect y llanw a phum prosiect y tonnau. Mae'r Rhwymedigaeth Cyflenwi Morol yn rhoi cefnogaeth ychwanegol o dan y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (Yr Alban). Yn Ebrill 2008 cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban hefyd £10 miliwn i Wobr Saltire, sef her ynni adnewyddadwy'r môr i annog gwyddonwyr a busnesau o bob cwr o'r byd i roi potensial helaeth ynni amgen ar waith yn gynt.²

Pentland Firth, Yr Alban

Mae dwysedd y cerrynt cyflym yn y môr rhwng tir mawr yr Alban a'r Ynysoedd Erch yn golygu mai Pentland Firth yw un o'r mannau gorau yn y byd o ran ynni'r llanw.

Prosiect ynni'r llanw Pentland Firth yw un o'r prif fentrau sy'n cael ei wthio ymlaen gan Bartneriaeth Adfywio Caithness, sy'n gweithio i gynorthwyo i adfywio economi Caithness wrth i atomfa Dounreay gael ei dadgomisiynu. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys pedair asiantaeth: Menter yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, Cyngor Ucheldiroedd yr Alban, yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear a Llywodraeth yr Alban. Mae gan yr ardal eisoes nifer fawr o fentrau gwyddonol a pheiranyddol, a gweithlu lleol hyfedr, gan ychwanegu at y potensial i godi diwydiant ynni'r llanw mawr yn Pentland Firth.

Rhoddodd Louise Smith y gorau i yrfa lwyddiannus fel peiriannydd pontydd i ddychwelyd i'w bro genedigol, gan dderbyn swydd dwy flynedd fel rheolwr prosiect i'r bartneriaeth. Mae'n hyderus y caiff prosiect ynni'r llanw y gefnogaeth mae ei angen i'w wireddu:

“Rwy'n ffyddiog iawn yng ngallu ein cymuned i sicrhau datblygiad ar raddfa fawr yn Pentland Firth, datblygiad fydd yn dod â swyddi i'r gogledd. Rwyf yn fy 40au nawr ac mewn 20 mlynedd hoffwn feddwl y bydd fy mhlant yn gallu gweithio'n lleol, ac y byddant yn magu fy wyrion a fy wyresau yn Caithness. Dyna yw fy mreuddwyd i ac fe wnaif fy gorau i'w sicrhau.”

Yn gynnar yn 2008 cadarnhaodd y cwmni Tocado o'r Iseldiroedd gynlluniau i godi cyfleuster ynni o'r llanw yn Firth, ar y cyd â chwmni oedd lleol. Mae'n disgrifio'r prosiect fel 'parc arddangos', sy'n cynnwys grŵp o 15 o dyrbinau ar y môr, pob un yn 10 metr mewn diamedr, gyda'r targed o harneisio 1300 MW o ynni'r llanw yn Pentland Firth erbyn 2020.

Lluniodd Tocado BV Tidal Energy astudiaeth cyn-ddichonolrwydd ac ynddi nodwyd y gofynion tasg ar gyfer astudiaeth 'uwch gynllun' – sef y trywydd arfaethedig ar gyfer datblygiad ynni'r llanw ar raddfa fawr ac wedi'i gyflymu. Mae'r rhain yn cynnwys mapio a gwneud arolwg manwl o ffynhonnell y llanw a chynnal astudiaethau ar yr effaith amgylcheddol. Mae un brif her yn ymwneud â'r cysylltiad grid. Nodir yn un adroddiad diweddar a luniwyd gan Tocado: “Mae'r grid yn yr Alban yn wan ac angen ei atgyfnerthu a'i ddiweddarau'n fawr. Ni fydd y polisi presennol sy'n gysylltiedig â sicrhau cytundebau cysylltiad grid yn caniatáu unrhyw ddatblygiadau ynni'r llanw sy'n fwy na 5 MW yn Pentland Firth cyn 2016.”



Tocado

Dolenni Menter yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd
www.hi-energy.org.uk/newsandevents.html
Tocado www.tocado.com

Mae **Cymru** yn bwriadu bod yn fwy na hunangynhaliol drwy gynhyrchu 33TWh o drydan adnewyddadwy erbyn 2025, sy'n fwy na chyfanswm defnydd Cymru o drydan yn 2005 (24TWh). Rhagwela Trywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) y bydd hyd at 15% o'r cynhyrchu hwn yn dod o brosiectau tonnau, llif y llanw neu forlyn llanw.

Ar hyn o bryd mae'r dechnoleg llif y llanw yng Nghymru yn y cyfnod ymchwilio ac arddangos, felly mae'n annhebyg y bydd ar waith yn llawn hyd nes ar ôl 2020. Mae rhychwant o brosiectau diddorol sydd ar eu cyfnod hyfywedd masnachol, neu bron â'i gyrraedd, gan gynnwys gwaith gan EoN/Lunar oddi ar Sir Benfro, MCT oddi ar Ynys Môn, Eco 2 DeltaStream a Phrifysgol Abertawe/Swan Turbines. Mae LICC hefyd yn datblygu Fframwaith Strategaeth Ynni Adnewyddadwy Morol Cymru i gynyddu ynni cynaliadwy cymaint ag y bo modd ar yr un pryd â lleihau'r effaith amgylcheddol.³

Mae **Gogledd Iwerddon** yn cynllunio cynhyrchu o leiaf 12% o'i holl drydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy brodorol erbyn 2012, gydag o leiaf 15% o hwnnw yn dod o dechnolegau nad ydynt yn rhai gwynt. Canfuwyd ffynhonnell llanw sylweddol oddi ar arfordiroedd Antrim a Down.⁴ Croesawodd Pwyllgor Gwaith Gogledd Iwerddon ddatblygiad Strangford Lough (gweler Astudiaeth Achos 1) ac mae'n bwriadu gosod targed mwy hirdymor ar ôl adolygu targedau newydd y DU a'r UE.⁵

Faint fydd hi'n ei gostio i gynhyrchu trydan o bŵer llif y llanw?

Ar y dechrau mae'r costau yn debygol o fod yn uchel iawn. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o unedau llif y llanw yn brototeipiau sy'n debygol o gostio deg gwaith yn fwy na'r peiriannau a gynhyrchir gyntaf. Mae prototeipiau hefyd yn aml wedi'u lleoli yn unedau sengl yn hytrach nag yn y ffermydd aml-uned fel y byddem yn eu disgwyl mewn prosiectau masnachol llawn.

Wrth i'r diwydiant ddatblygu a dechrau elwa o arbedion maint, rhagwela'r rhan fwyaf o arbenigwyr y bydd cost trydan yn gostwng i lefelau mwy cystadleuol. Dyma oedd profiad y diwydiant gwynt, wrth i'r costau ostwng tua dau draean rhwng dechrau'r 1980au a dechrau'r 1990au – o fwy na 20 sent Ewro am bob kWh i 7 sent. Bu i sybsydeiddio gan y Llywodraeth yn ystod camau dechreuol y datblygu gynorthwyo i wthio twf yn y diwydiant a dod â lleihad mewn costau maes o law.⁶

Beth yw manteision cynhyrchu pŵer o lif y llanw?

Mae llanw a thrai'r môr yn rhagweladwy ac, oherwydd y lleolir holl weithfeydd ynni llif y llanw ar y môr, ystyrir bod effaith ei weithredu yn ymyrryd llai ac yn aflonyddu llai ar gymunedau lleol na mathau eraill o gynhyrchu ynni.⁷

Er bod effeithiau'r dechnoleg ar yr amgylchedd, y gymuned a'r economi yn anorfod yn cydgysylltu â'i gilydd, trafodir pob un ohonynt ar wahân yn y tair adran ganlynol.

Adran 3

Effaith ar yr amgylchedd a bywyd gwylt

Cyhoeddwyd adolygiad o effeithiau amgylcheddol posibl technolegau ynni adnewyddadwy morol gan Dreftadaeth Naturiol yr Alban (Scottish Natural Heritage /SNH) yn 2004. Nododd y SNH mai'r prif effeithiau fyddai'n codi'n benodol o osod a gweithredu dyfeisiau llif y llanw fyddai'r rhain:

- perygl mordwyo i longau – o ran y dyfeisiau hynny sy'n estyn allan yn uwch nag wyneb y môr neu yn agos iddo
- bydd gofyn am gynnal a chadw rheolaidd oherwydd y rhannau symudol yn nŵr y môr – neu ddefnyddio paent gwrthffowlio
- yr effaith ar batrymau llif y llanw, cerrynt i lawr afonydd, patrymau gwaddodion a morffoleg gwely'r môr – a'r effeithiau ar gynefinoedd y môr fyddai'n deillio o hynny
- allyriadau acwstig o'r dyfeisiau a'r effaith ar famaliaid y môr a'r ecoleg
- aflonyddu cynefinoedd a rhywogaethau rhynglanwol ac yn y môr wrth adeiladu.

Ym marn adolygiad y SNH, y technolegau llif y llanw (a rhai tonnau'r môr) oedd y rhai lleiaf tebygol o niweidio treftadaeth naturiol y môr a'r arfordir o'i gymharu ag ynni adnewyddadwy morol eraill. Daeth i'r canlyniad:

“Os caiff y safleoedd eu dewis yn iawn, ymddengys mai'r tonnau a llif y llanw, am y tro, yw'r technolegau sy'n cynnig y gallu mwyaf i gynhyrchu ynni yn gyfnewid am yr effaith lleiaf ar y dreftadaeth naturiol.”⁸

Pryd a sut y gall effeithiau amgylcheddol ddigwydd?

Bydd pob cam o'r datblygiad – adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw, a dadgomisiynu – yn effeithio ar yr amgylchedd. Gellid disgwyl y bydd yr effeithiau amgylcheddol mwyaf yn digwydd pan osodir unedau gyda'i gilydd mewn casgliadau, ffermydd neu gyfres o ffermydd.

i) Adeiladu

Yn y cam adeiladu, bydd y prif effeithiau yn gysylltiedig â gweithgareddau drilio a gosod pyst, cynnydd yn y sŵn, a mwy o risg llygru o ran y cychod adeiladu. Fel arfer caiff dyfeisiau llif y llanw eu codi a'u hadeiladu ar y lan, cyn gosod y ddyfais a cheblau cysylltiedig yn y môr. Mae effeithiau uniongyrchol ar wely'r môr yn debygol o fod ar ei fwyaf yn ystod y cam hwn.

ii) Gweithredu a chynnal a chadw

Efallai y caiff symudiadau'r dŵr a gwaddodion eu heffeithio, wrth i'r ynni gael ei echdynnu o lif y llanw; gallai sŵn tanddwr a throad y tyrbîn effeithio ar yr ecoleg, pysgod a mamaliaid y môr. Disgwylir i ddyfeisiau llif y llanw, unwaith y cânt eu datblygu i raddfa lawn, bara am tua 20 mlynedd, er y gellid rhoi dyfeisiau newydd ar y safleoedd pan ddaw'r rhain i ben.

iii) Dadgomisiynu

Gan gymryd yn ganiataol y caiff y ddyfais ei thynnu oddi yno yn llwyr (na fydd yn digwydd os caiff y safle ei aildefnyddio), gellir disgwyl effeithiau tebyg i'r rhai a nodwyd wrth gomisiynu ac adeiladu. Caiff unrhyw gymuned newydd o organebau morol sydd wedi sefydlu ar y ddyfais eu haflonyddu.⁹

Beth sy'n cael ei wneud i leihau'r peryglon i'r amgylchedd?

Caiff yr holl ddyfeisiadau prawf eu monitro'n ofalus i weld sut maent yn perfformio. Bydd y monitro hwn yn cynorthwyo i wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ffyrdd y gall y peryglon i'r amgylchedd a bywyd gwylt eu lleihau cymaint ag y bo modd neu eu hosgoi yn gyfan gwbl.

Mae cynllunwyr dyfeisiau a systemau gweithredu hefyd yn ystyried y rhyngweithio posibl ag adar, pysgod a mamaliaid y môr. Mae modd amseru gweithgareddau gosod a dadgomisiynu er mwyn lleihau cymaint ag y bodd modd ar yr effeithiau andwyol ar dderbynyddion ecolegol-sensitif, megis morfilod a mamaliaid eraill y môr. Fel rhan o'r broses cynllunio, mae gofyn i hyrwyddwyr pob cynllun ynni'r llanw lunio Asesiad Effaith Amgylcheddol, a dangos yn glir sut y maent yn bwriadu lleihau neu wneud iawn am effeithiau amgylcheddol posibl.

De Corea a Chymru

Mae cwmni blaenllaw ym maes ynni'r llanw yn y DU, sef Lunar Energy, yn mynd i godi offer pŵer y llanw mwyaf yn y byd, gan ddarparu ynni adnewyddadwy o'r môr i hyd at 200,000 o gartrefi yn Ne Corea erbyn 2015.

Mae Lunar Energy wedi llofnodi cytundeb £500 miliwn â chwmni Midland Power o Gorea i greu 300 o dyrbinau tanddwr, pob un tua 60 troedfedd o uchder, oddi ar arfordir De Corea. Unwaith y byddant wedi'u clymu i wely'r môr, bydd y tyrbinau yn dal yr ynni o lif y llanw ar hyd dyrffyrdd y Wando Hoenggan.

Y cwmni ymchwil a datblygu o Aberdeen, Rotech Engineering Ltd, fydd yn darparu cydrannau arbenigol ac arbenigedd cynllunio ar gyfer y prosiect. Caiff y tyrbinau eu gwneud a'u gosod gan ddiwydiannau trwm Hyundai Samho o Dde Corea, sef pumed adeiladwyr llongau mwyaf y byd.

Y camau nesaf fydd cynnal astudiaeth lawn ar adnoddau a dichonoldeb, a gosod offer peilot 1MW erbyn Mawrth 2009. Mae gan bob uned dyrbin sydd â diamedr o 11.5 metr a phwysau balast llawn o fwy na 2500 tonn.

Dyma ddywedodd cadeirydd Lunar Energy, William Law, a ddatgelodd y cynllun ym Mawrth 2008:

“Mae'n bleser o'r mwyaf gennyf gyhoeddi'r gyd-fenter hon sy'n tystio i reolaeth graff Midland Power Corea. Maent wedi gweld y potensial yn y dechnoleg hon yn y DU, o safbwynt eu cwmni nhw a Corea ei hun. Mae rôl flaenllaw Lunar yn y prosiect hwn yn rhoi potensial anferth i gwmni Prydeinig i fanteisio ar gyflwyno ynni'r llanw ledled y byd.”

Mae Lunar Energy hefyd yn gweithio ar raddfa lai oddi ar arfordir Sir Benfro, ac yno mae am osod wyth tyrbin 1MW a ddylai fod yn gweithio erbyn 2010/11. Mae Llywodraeth y DU yn cyfrannu £2.5m tuag at y costau datblygu o £10m.



Lunar Energy

Beth yw barn y cyhoedd am bŵer y llanw?

Mae'r gwaith ymgysylltu a wnaeth y CDC â'r cyhoedd ynghylch pŵer y llanw yn dangos mai effeithiau amgylcheddol yn fwy na dim arall, a sut orau i roi sylw iddynt, sy'n cael blaenllaw yn agweddau pobl a'r ffordd y maent yn ystyried y dechnoleg.

Comisiynodd y CDC raglen o ymgynghori yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol ag aelodau'r cyhoedd er mwyn cyfrannu at ei adroddiad Ynni Llanw yn y DU (2007). Casgliad yr adroddiad yw er bod y cyhoedd yn gyffredinol yn cefnogi'r syniad o bŵer y llanw, roedd canfod ffordd o wneud rhywfaint o iawn am yr effeithiau negyddol ar y amgylcheddol yn amodau allweddol ar ba mor dderbyniol ydyw:

“Yr effaith amgylcheddol, yn fyd-eang ac yn lleol, yw'r flaenoriaeth bwysicaf i'r cyhoedd wrth ddod i wybod mwy am bŵer y llanw. Maent eisiau gwybod beth fydd yr effaith ar gynefinoedd a bywyd gwyllt lleol ac a fydd yn gwneud gwahaniaeth mesuradwy i'r newid yn yr hinsawdd.”¹⁰

Roedd y bobl a gymerodd ran yn yr ymarfer ymgysylltu hefyd am gael rhagor o wybodaeth am:

- Y gost debygol
- Sut fydd cynlluniau yn edrych
- Yr effaith ar gymunedau lleol
- Enghreifftiau o wledydd eraill
- Barn gan sefydliadau/unigolion arbenigol.

Dyfyniadau

Mae'r sylwadau isod yn dangos yr ystod eang o farn a fynegwyd yn ystod yr amryw o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd a gomisiynwyd ar gyfer y CDC.

“Pan 'dych chi'n meddwl am y peth, mae'n ffynhonnell amlwg i gael pŵer.”

Menyw, Bryste (gweithdy)

“Ydyn nhw fel melinau gwynt o dan y dŵr?”

Dyn, Orkney (grŵp ffocws)

“Petai Brunel yn fyw heddiw, byddai e wedi’i wneud. Rwy’n synnu nad oes mwy o arian yn cael ei arllwys iddo gan y byddai hynny’n beth synhwyrol.”

Menyw, Trwyn Larnog, De Cymru (gweithdy)

“Byddwn i’n dweud mai llif y llanw sy’n achosi’r lleiaf o ddifrod... yr unig fath o effaith yr ydych yn ei gael ydyw gyda’r llongau.”

Dyn, Caerdydd (gweithdy)

“Os bydd hyn yn gweithio yna gall y DU ddweud yn falch ‘Ni wnaeth chwyldroi hyn’.”

Dyn, Bryste (gweithdy)

“O’m rhan i, mae’n dibynnu ar ble yn union maen nhw’n mynd. Os ydyn nhw’n agos at y traethau, yna dim ar unrhyw gyfrif.”

Menyw, Inverness (gweithdy)

Adran 4

Effeithiau ar y Gymuned

Bydd esblygiad prosiectau pŵer y llanw yn dibynnu i raddau helaeth ar farn ac agweddau'r cymunedau lleol agosaf a gâi eu heffeithio ganddynt. Bydd pobl yn disgwyl cael gwybod am gynlluniau arfaethedig, ac yr ymgynghorir â hwy yn eu cylch, yn ogystal â chael eu sicrhau y cydnabyddir eu rhan hwy mewn unrhyw ganlyniad gan hyrwyddwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae profiad o'r diwydiant pŵer gwynt wedi dangos manteision ymwneud yn gynnar â'r cymunedau ynghylch unrhyw gynllun ynni'r llanw arfaethedig. Bydd y materion fydd o ddiddordeb neu bryder lleol yn debygol o ganolbwyntio ar:

- Y potensial i greu swyddi newydd
- Taliadau er budd y gymuned
- Cyfleoedd addysgol a buddsoddi
- Effaith ar safleoedd diwylliannol neu dreftadaeth naturiol a bywyd gwylt
- Effeithiau gweledol: y morlun ac ardaloedd arfordirol.

Mae'r defnydd o daliadau er budd y gymuned gan ddatblygwyr ynni adnewyddadwy yn arfer cyffredin gan ddatblygwyr yn y diwydiant ynni gwynt ar y tir, a gellid ei ailadrodd yn hawdd mewn datblygiadau llif y llanw newydd. Efallai y bydd cyfle hefyd ar gyfer buddsoddi cymunedol mewn cynlluniau o'r fath, fel yn achos rhai ffermydd gwynt bychain yn y DU ac ar raddfa lawer ehangach yn Nenmarc.

Awgryma tystiolaeth hyd yn hyn os yw pobl yn deall ac yn fwy ymwybodol o'r ystyriaethau, yna maent yn fwy tebygol o gefnogi prosiectau ynni'r llanw.


Gwahoddodd y CDC bobl o gymunedau a fyddai'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan brosiectau llanw posibl i gymryd rhan yn eu rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd. Cynhaliwyd gweithdai ym Mryste, Caerdydd ac Inverness, a chyfarfodydd grŵp ffocws yn Nhrwyn Larnog (Lavernock Point), Aber Afon Hafren a Brean Down, ac yn Orkney. Ar y cychwyn, roedd y cyfranogwyr wedi'u rhannu'n gyfartal o blaid ac yn erbyn pŵer y llanw, gyda llawer yn dweud nad oedd ganddynt ddim neu ond ychydig o wybodaeth flaenorol amdano. Ar ddiwedd eu trafodaethau, roedd dwy ran o dair ohonynt yn mynegi cefnogaeth i bŵer y llanw. Roeddynt yn ystyried

mai manteision pwysicaf y dechnoleg oedd:


- Gwella diogelwch y cyflenwad trydan
- Cynhyrchu sylweddol ar ynni glân.

Mewn ymarfer cyfochrog, cynhaliwyd arolwg barn o 1000 o oedolion gan arolwg cynhwysfawr yn y DU i'r CDC fel rhan o'i broses ymgysylltu â'r cyhoedd. Dywedodd tua dwy ran o dair (66%) ohonynt nad oeddynt yn gwybod dim neu ond ychydig am bŵer y llanw. Er hynny, roedd tua hanner (51%) y bobl a holwyd yn credu mai'r Llywodraeth ddylai ariannu'r ymchwil a'r cymorth i dechnolegau newydd pŵer y llanw.

Lefelau gwybodaeth y cyhoedd am bŵer y llanw



Sut fyddai orau i'r DU gefnogi technolegau pŵer y llanw?



Canolfan Ynni Morol Ewrop, Orkney



EMEC

Agorwyd cyfleuster newydd i brofi pŵer y llanw yng Nghanolfan Ynni Morol Ewrop (EMEC), Orkney yn swyddogol ym mis Medi 2007.

Mae wedi'i leoli yn ardal Fall of Warness, ger ynys bellennig Eday, ac mae gan y safle pum gwely arbrofi mewn dŵr agored ar gyfer profi prototeipio ddyfeisiau llanw, pob un â chebl penodol o wely'r môr yn ei gysylltu â'r grid lleol. Mae cyswllt cyfathrebu ar wahân yn gyrru gwybodaeth am berfformiad dyfeisiau i ganolfan data'r EMEC yn Stromness. Golyga hyn bod modd monitro ddydd a nos, a hynny ym mhob math o dywydd ac amodau ar

y môr. Mae'r safle yn cyd-fynd â chyfleuster profi pŵer y tonnau EMEC a agorwyd yn 2004. Gyda'i gilydd byddant yn rhoi cyfleoedd i'r sector ynni adnewyddadwy morol ymchwilio a datblygu – cyfleoedd nad oes mo'u tebyg unrhyw le arall yn y byd.

Arweiniwyd prosiect £12.6 miliwn EMEC gan Fenter yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd (Highlands and Islands Enterprise) ar ran consortiwm o bartneriaid y sector cyhoeddus sy'n cynnwys Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU, yr Ymddiriedolaeth Garbon, Menter yr Alban (Scottish Enterprise), Cyngor Ynysoedd Erch, a chymorth Ewropeaidd o Raglen Partneriaid yr Ynysoedd.

Cred cynullwr Cyngor Ynysoedd Erch, Stephen Hagen, y bydd y cyfleuster profi pŵer y llanw yn atgyfnerthu safle creiddiol EMEC yng ngweithgareddau cynyddol y sectorau academaidd, cyhoeddus a phreifat ym maes ynni adnewyddadwy morol ar yr ynysoedd ac yn y cyffiniau.

“Mae'r Cyngor wastad wedi bod yn gefnogwr allweddol i EMEC ac mae wedi rhoi croeso cynnes i'r cam newydd hwn yn natblygiad EMEC. Mae digonedd o adnoddau adnewyddadwy ar yr Ynysoedd Erch, yn enwedig tonnau a llif y llanw, gan roi mantais ynni adnewyddadwy morol i'r ardal.”



Caiff y ddyfais gyntaf a dreialwyd yn y cyfleuster profi pŵer y llanw ei gweithredu gan y cwmni o Ddilyn, OpenHydro. Yn 2007, rhoddodd Llywodraeth yr Alban grant o £1.2 miliwn i OpenHydro i alluogi'r cwmni i osod ail ddyfais i'w brofi yn EMEC. Mae galw uchel gan ddatblygwyr i ddefnyddio'r gwelyau arbrofi hyn oherwydd prinder cyfleusterau profi llif y llanw pwrpasol fel y rhai a gynigir gan EMEC.

Ynghyd â'r cyfleusterau ymchwilio a datblygu, mae cyfleoedd addysgol newydd ar gyfer y gymuned leol ac eraill hefyd wedi codi. Mae Campws Orkney o Brifysgol Heriot-Watt yn cynnig MSc mewn Datblygu Ynni Adnewyddadwy i helpu i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau yn y sector ynni adnewyddadwy, ac mae'n cynnig profiad ymarferol i fyfyrwyr nad oes modd ei gael ar gampws confensiynol. Mae'r cwrs ar gael yn llawn-amser, yn rhan-amser ac wrth ddysgu o bell.

Dolenni Menter yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd www.hi-energy.org.uk
Prifysgol Heriot-Watt www.icit.hw.ac.uk/red.htm
OpenHydro www.openhydro.com
EMEC www.emec.org.uk

Adran 5

Effeithiau Economaidd a Chyflogaeth

O gael cynlluniau ynni'r llanw masnachol llawn, mae'n debyg mai'r effaith economaidd mwyaf sylweddol fydd creu swyddi. Daw'r manteision cyflogaeth i ddau gategori: bydd rhai swyddi newydd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynllun pŵer y llanw; bydd eraill yn llifo'n anuniongyrchol yn sgil mwy o incwm a mwy o alw yn y sector ynni adnewyddadwy o ganlyniad i'r cynllun.

Amcangyfrifa'r Ymddiriedolaeth Garbon¹¹ y gellid gosod rhwng 1.0GW a 2.5GW o ynni llif y llanw ledled Ewrop erbyn 2020. I roi hwn mewn cyd-destun, ar ddiwedd 2006, cyfanswm yr ynni adnewyddadwy oedd ar waith yn y DU oedd 3.6GW.¹² Gallai llawer o hwn felly fod yn y DU gan fod gennym y gyfran fwyaf o adnoddau llanw yn Ewrop. Amcangyfrifodd y Fforwm ar gyfer Datblygu Ynni Adnewyddadwy yn yr Alban (FREDS) y gallai hyd at 10% o drydan yr Alban ddod o ynni llif y llanw neu donnau erbyn 2020, ac y gallai datblygu ynni'r tonnau a'r llanw yn Ewrop ddod â hyd at 7,000 o swyddi yn uniongyrchol i'r Alban ei hun.¹³

Sut y gall pobl ddarganfod a fydd cynllun ynni'r llanw yn creu swyddi yn eu hardal leol?

Fel y soniwyd yn gynharach, bydd cynllunio gweithfeydd llif y llanw arfaethedig yn gofyn i ddatblygwyr lunio Asesiad Effaith Amgylcheddol. Mae'n rhaid i hwn gynnwys asesiad o effeithiau cymdeithasol ac economaidd cynllun penodol ar yr ardal leol.

Efallai mai cyfyng fydd y cyfle am swyddi newydd yn economi ardal sy'n lleol i gynllun ynni'r llanw, gan ei fod yn dibynnu ar ba mor aeddfed yw'r gadwyn gyflenwi a natur y farchnad swyddi yn lleol.

Pryd y caiff y mwyaf o swyddi eu creu yn ystod oes cynllun?

Y cam adeiladu a chomisiynu yw'r un sy'n debygol o greu y mwyaf o gyfleoedd gwaith. Disgwylir y bydd y cam gweithredu a chynnal a chadw yn creu llai o waith.

Sut yr effeithir ar ddiwydiannau neu wasanaethau cyhoeddus eraill?

Bydd datblygu cysylltiadau trafndiaeth newydd mewn ardaloedd arfordirol i gefnogi cynlluniau ynni'r llanw o fudd i'r cymunedau lleol ac yn lleihau costau trafndiaeth iddynt. Mae'r diwydiannau a fydd efallai, neu a fydd, yn cael eu heffeithio gan gynllun ynni'r llanw yn cynnwys:

- Porthladdoedd
- Llongau masnachol
- Pysgota masnachol
- Twristiaeth a hamdden.

Bydd gofyn am asesiadau amgylcheddol strategol er mwyn osgoi gwrthdrawiadau posibl rhwng gwahanol ddefnyddwyr amgylchedd y môr a manteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer adnewyddadwyon morol megis cynhyrchu trydan o lif y llanw.

Mae Llywodraeth yr Alban wrthi'n cwblhau Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer ynni adnewyddadwy morol ar arfordir gogleddol yr Alban, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn datblygu strategaeth ynni adnewyddadwy o'r môr.

Beth arall sydd angen digwydd er mwyn sicrhau fod cynhyrchu ynni o'r llanw yn gallu symud o ymchwil a datblygu i weithredu'n fasnachol?

Nodwyd amryw o rwystrau i dwf cynaliadwy, yn bennaf problemau yn ymwneud ag ariannu, mynediad i'r grid, a'r drefn gynllunio. Y DU yw un o'r gwledydd datblygedig sydd â'r gwariant cyhoeddus lleiaf ar ymchwil a datblygu ynni. Hyd nes y bydd y gadwyn arloesi a chyflenwi wedi'i datblygu a'i chefnogi'n llawn, gallai llafur a chostau datblygu rhatach dramor fygwth safle'r DU fel arloeswr ym maes technoleg y llanw. Mae cyfyngiadau tebyg ar y cyfle i ynni'r llanw fod â rhan wrth gyrraedd targed ynni adnewyddadwy y DU.¹⁴

Mae'r CDC o'r herwydd wedi argymhell amryw o fesurau i'r Llywodraeth, ac maent wedi'u crynhoi isod:

Cefnogaeth Ariannol

Dylai'r DU ddal ati i gefnogi technolegau llif y llanw newydd. Mae'n rhaid cynyddu'r ariannu ar arloesi technolegau isel eu carbon yn y DU, gydag ymrwymiad i gefnogi datblygiad dyfeisiau llif y llanw ym mhob cam o'r gadwyn arloesi.

Dylai'r Llywodraeth ystyried y potensial ar gyfer canolbwynt ymchwil a datblygu'r llanw yng ngogledd yr Alban i adeiladu ar lwyddiant EMEC ac annog y pontio i ddatblygiad mwy hirdymor ar safleoedd y llanw yn Pentland Firth a'r cyffiniau. Mae potensial sylweddol i ddatblygu'r gwasanaethau a gynnigir gan EMEC, gan gynnwys gwaelodlin astudiaethau amgylcheddol ac ardystio dyfeisiau.

Cysylltiad Grid

Mae gofyn taer ar i Ofgem (Office of Gas and Electricity Markets) a'r Llywodraeth gynyddu gallu'r system trosglwyddo trydan i wneud lle i ynni adnewyddadwy morol ac eraill yn yr hir dymor. Gwael yw'r cysylltiad grid ar hyd gogledd yr Alban, lle ceir ffynonellau llif y llanw sylweddol.

Systemau cynllunio a rhoi caniatâd

Byddai gwell cydlynu rhwng polisi ynni â'r cyfundrefnau cynllunio a rhoi caniatâd yn cynorthwyo i gyflymu'r broses hir a chymhleth (ar hyn o bryd) o gael caniatâd, drwy sicrhau mai dim ond y safleoedd mwyaf priodol a glustnodir ar gyfer eu datblygu.

Gallai defnyddio deddfwriaeth neu Asesiadau Amgylcheddol Strategol i greu fframwaith cynllunio gofodol morol gynorthwyo i ysgogi'r cydweithredu sydd mawr ei angen i gefnogi'r diwydiant ynni adnewyddadwy ifanc hwn er mwyn iddo fod yn fasnachol hyfyw.

Camau nesaf

I gael gwybod rhagor am weithgarwch ledled y DU, cysylltwch â'r canlynol:

Llywodraeth yr Alban

www.scotland.gov.uk/Topics/Business-Industry/Energy

Llywodraeth Cynulliad Cymru

<http://new.wales.gov.uk/topics/businessandconomy/help/sectors/energy/?lang=cy>

Pwyllgor Gwaith Cynulliad Gogledd Iwerddon

www.detini.gov.uk/energy

Llywodraeth y DU, Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR)

www.berr.gov.uk/energy/sources

Canolfan Ynni Morol Ewrop/European Marine Energy Centre

www.emec.org.uk

Tudalennau gwybodaeth ynni'r môr BWEA

www.bwea.com/marine

Troednodiadau

- 1 *Compliance costs for meeting the 20% renewable energy target in 2020*, BERR, Mawrth 2008, www.berr.gov.uk/files/file45238.pdf
- 2 www.scotland.gov.uk/saltireprize
- 3 <http://new.wales.gov.uk/consultations/closed/envandcouncloscons/renewenergymap/?lang=cy>
- 4 *Action Renewables (2004) A study into the renewable energy resource in the Six Counties of Northern Ireland.*
- 5 www.detini.gov.uk/energy
- 6 *Prif adroddiad Ynni Llanw yn y DU*, Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, 2007, t.48.
- 7 *Adroddiad Ymchwil Entec 2*, www.sd-commission.org.uk/pages/tidal.html
- 8 *Marine Renewable Energy and the Natural Heritage. Golwg cyffredinol a datganiad polisi*, SNH. Casgliad t.26.
- 9 *Adroddiad Ymchwil Entec 2*, www.sd-commission.org.uk/pages/tidal.html
- 10 *Tidal Power in the UK*, Engagement Report, Public and Stakeholder Engagement Programme, CDC, Hydref 2007, t.20.
- 11 *Future Marine Energy*, Ymddiriedolaeth Carbon, 2006,
- 12 *Digest of UK Energy Statistics*, BERR, 2007.
- 13 *Harnessing Scotland's Marine Energy Potential*, Fforwm ar gyfer Datblygu Ynni Adnewyddadwy yn yr Alban, 2004.
- 14 *Adroddiad Ymchwil Entec 2*, www.sd-commission.org.uk/pages/tidal.html